YSGOL EGLWYS YR HOLL SAINT, GRESFFORDD
YSGOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU
POLISI DERBYN DISGYBLION

Mae Ysgol Eglwys yr Holl Saint yng Ngresffordd yn Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Gymorth yr Eglwys yng Nghymru. Nid oes gan ysgolion eglwys unrhyw ddalgylch, rhanbarth na ffiniau. Maen nhw'n agored i unrhyw ddisgybl o ba bynnag hil, rhyw ac enwad.

Rydym yn derbyn disgyblion i'r Feithrinfa yn ystod y mis Medi nesaf ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Rydym yn trefnu ymweliadau ymgyfarwyddo ar eu cyfer. Mae yna groeso i rieni disgyblion newydd y Feithrinfa a'r Dosbarth Derbyn fynychu ein Noson Gyflwyno ym mis Mehefin neu Orffennaf i gyfarfod â phob aelod staff ac i gael sgwrs gyda'r athro neu athrawes.

Rydym yn atgoffa rhieni fod hon yn Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Gymorth yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r llywodraethwyr a'r staff yn ceisio annog ethos o ofal Cristnogol. Mae gwerthoedd ffydd yn rhan annatod o wead bywyd yr ysgol. Mae addoli ar y cyd, ac addysg grefyddol, yn rhan bwysig o fywyd pob dydd yr ysgol.

Y Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am fynediad i'r Ysgol Gynradd Wirfoddol dan Gymorth yr Eglwys yng Nghymru hon.

Mi fydd y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i: -

1. Plant dan ofal a fedyddiwyd yn aelodau'r Eglwys yng Nghymru
2. Plant dan ofal o Ffyddau eraill
3. Disgyblion sydd â chyfeiriad eu cartref o fewn terfynau plwyf Gresffordd.
4. Disgyblion gyda brawd neu chwaer fydd yn dal i fod yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd nesaf, h.y. heb fod ym Mlwyddyn 6 wrth gyflwyno'r cais
5. Disgyblion y mae eu rhieni ynghlwm wrth waith ac addoliad Eglwys yr Holl Saint Gresffordd.
6. Disgyblion y mae eu rhieni ynghlwm wrth eglwys blwyf gyfagos, os mai hon yw'r ysgol gymorthedig agosaf.
7. Disgyblion y mae eu rhieni yn aelodau gweithredol o enwad Cristionogol heblaw Anglicaniaeth, os mai hon yw'r ysgol gymorthedig agosaf atynt; mi fydd angen llythyr oddi wrth offeiriad neu weinidog.
8. Agosatrwydd at gyfeiriad cartref y plentyn, ac nid (er enghraifft) ei warchodwr neu aelodau eraill ei deulu.
9. Unrhyw ddisgyblion eraill.

Os oes mwy o geisiadau na llefydd, mi fydd y ceisiadau'n cael eu trin yn unol â'r meini prawf uchod.

Mae hawl gan rieni sy'n anfodlon gyda phenderfyniad y Corff Llywodraethol i apelio. Rhaid apelio o fewn un deg pedwar diwrnod at dderbyn y penderfyniad. Mae angen apelio ar bapur i Gadeirydd y Llywodraethwyr, trwy law Ysgol Eglwys yr Holl Saint Gresffordd.

Nid yw addysg feithrin yn orfodol. Nid oes gan rieni aflwyddiannus yr hawl i ddefnyddio deddfwriaeth addysg i apelio.

Nid yw ennill lle yn y Feithrinfa yn sicrhau lle yn y Dosbarth Derbyn.